# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS a LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

-

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021 - 2022

Gweler isod Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos 2021 i 2022

AELODAU

Cadeirydd: Irwedd Griffiths
Is-Gadeirydd: Eifion Evans
Cynghorwyr : John Evans
Bryn Jones
D Gwyn Jones
Tudur W Jones
Gwyndaf Roberts
John D Roberts
Goronwy Rees Williams
Hefin Williams
Cynghorydd Sir Conwy : Ifor Glyn Lloyd
Clerc: John Maclennan (1af Ebrill 2021 – 30ain Tachwedd 2021
Tom Jones (1af Rhagfyr 2021 – 31fed Mawrth 2022

CYFARFODYDD

Cynhalwyd deg cyfarfod yn ystod y flwyddyn, un yn yr awyr agored, o achos Covid ar Fferm Llety Du (1), a'r gweddill bob yn ail yn Neuadd Bentref Betws yn Rhos (5) ac yng Nghanolfan Gymunedol Llanelian yn Rhos (4).

PRESENOLDEB

Yn ystod y flwyddyn cafwyd 90% o bresenoldeb gan y Cynghorwyr yn y cyfarfodydd (bu i un cynghorwr beidio a mynychu o Mis Gorffennaf ymlaen), a fe fy i'r Cynghorydd Sir fynychu 9 o'r cyfarfodydd.

CYLLID

Rhoddwyd cais a derbynwyd Praept o £8,000 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn
Cafwyd gwariant fel a ganlyn:
Tal y Clerc = J Maclennan - £2297.84 / T. Jones - £861.69
HMRC = £789.91
Grantiau i grwpiau lleol = £1450.00
Trwyddedau, aelodaeth ac yswiriant = £585.00
Gwasanaethau y we ac ebost = £150.00
Cyfieuthu = £220.00
Treuliau swyddfa, costau papur, stampiau ayyb = £553.00
Archwiliadau Blynyddol = £424.00
Rhent am safleoedd cyfarfodydd = £200.00
Cynnal a chadw byrddau gwybodaeth, goleuadau Nadolig ayyb = £417.06
Gwasanaethau cyflogaeth = £111.60

Costau Banc = £16.20
Total = £8076.15
Nid oedd dim sylwadau na chrybwylliadau yn dilyn yr Archwiliad Mewnol Blynyddol. Mae dal I ddisgwyl am adroddiad yr Archwiliad Allannol.

<u>CEISIADAU CYNLLUNIO</u>
Trafodwyd 30 o geisiadau cynllunio dros y flwyddyn. Nid oedd gwrthwynebiad i 22 o'r ceisiadau ond gwnaed cais am fwy o wybodaeth neu wrthwynebiad i 8 cais (Cafodd 6 o'r 8 cais yma ei caniatau gan yr adran gynllunio).

<u>FFERMYDD GWYNT</u>
Bu i dipyn o son yn ystod y flwyddyn am adeiladu ffermydd gwynt yn ardal y Cyngor ac yn yr ardaloedd cyfagos. Mae'n amlwg fod hyn yn creu llawer o bryder i drigolion y gymdogaeth a felly cafwyd gryn dipyn o drafodaeth ynglun a'r datblygiadau hyn. Ni does cais cynllunio swyddogol wedi ei wneud hyd yn hyn felly nid oes modd gwneud dim byd ymarferol ynghylch y posibiliadau. Byddwn yn cadfw llygaid craff ar unrhyw ddatblygiadau pellach.

<u>HYFFORDDIANT</u>
Ni chafwyd unrhyw hyfforddiant, unai fel grwp nac yn unigol yn ystod y flwyddyn hon.

<u>SYLWADAU CYFFREDINOL</u>
Roedd misoedd cyntaf y flwyddyn hon yn dal o dan effaith COVID a felly nid oedd llawer o weithgareddau yn bosib. Yn dilyn y cyfnod hwn wrth gwrs roedd rhaid gwario amser ac egni y cyngor ar wneud y dyletswyddau dydd i ddydd arferol heb y cyfle I gychwyn ar unrhyw waith neu broject newydd.

Yr eiddoch yn gywir

Tom Jones
Clerc
Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos
07774 833523
clerc@betwsallanelian.org.uk